# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Gwernllwyn**

**Cartref Gofal Gwernllwyn**
**Heol Llandeilo Cross Hands**
**Llanelli**
**SA14 6RD**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

23/03/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Gofal Gwernllwyn

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Gwernllwyn Leisure Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 42 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 21/02/2022 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae'r rheolwr yn arwain tîm o staff ymroddedig sy'n cael eu gwerthfawrogi gan y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth
a'u perthnasau. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn defnyddio ei ymweliadau Rheoliad 73 ac adnoddau archwilio ansawdd i sicrhau trosolwg da o'r gwasanaeth.

Mae iechyd a llesiant yr unigolion yn bwysig i'r rhai sy'n gweithio yn y gwasanaeth.
Mae'r bobl a'u perthnasau yn cadarnhau hyn. Ar y cyfan, mae'r cofnodion gofal yn cynnig ymdeimlad da o'r
person, fodd bynnag, mae angen gwell tystiolaeth fod y bobl a/neu eu cynrychiolwyr yn cael eu cynnwys yn y gwaith o gynllunio ac adolygu eu gofal. Mae'r gweithwyr gofal wedi'u hyfforddi'n dda
ac maent yn meddu ar wybodaeth dda am y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth.
Mae mesurau atal a rheoli heintiau priodol ar waith, yn unol â chanllawiau cyfredol Iechyd Cyhoeddus Cymru
.

Mae'r amgylchedd yn groesawgar, yn lân ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda iawn. Mae ystafelloedd gwely'r bobl wedi'u haddurno i safon uchel a'u personoli'n unol â dewis yr unigolyn.

Mae'r cyfleusterau cymunedol yn cynnig amrywiaeth o ddewisiadau ar gyfer achlysuron a digwyddiadau cymdeithasol.

## Llesiant

Mae'r bobl yn cael eu hamddiffyn rhag y risg o niwed a chamdriniaeth. Mae'r gweithwyr gofal yn wybodus, wedi'u hyfforddi'n dda ac yn poeni am yr unigolion sy'n byw yn y gwasanaeth. Maent hefyd yn meddu ar ddealltwriaeth dda o anghenion y bobl a'r ffordd orau o ddiwallu'r rhain. Mae'r cofnodion gofal ar y cyfan yn cynnwys gwybodaeth am ofynion a dewisiadau'r bobl. Mae'r gwasanaeth yn cydgysylltu â gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol er mwyn sicrhau bod y bobl yn cadw mor iach â phosibl.

Mae gweithdrefnau recriwtio, goruchwylio a hyfforddiant da ar waith er mwyn sicrhau bod gan y staff y sgiliau, y wybodaeth a'r dulliau gofalu cywir. Mae'r staff yn parchu'r rheolwr a gaiff, yn ei dro, ei gefnogi'n dda gan yr Unigolyn Cyfrifol. Mae'r staff gofal yn deall eu cyfrifoldebau i ddiogelu'r bobl a chânt eu cefnogi gan bolisïau a gaiff eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd. Mae mesurau rheoli ac atal heintiau priodol ar waith ac mae'r staff yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau'n glir. Mae'r gwasanaeth yn lân ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda iawn.

Caiff dewisiadau a barn y bobl eu cydnabod. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn gofyn am farn unigolion sy'n byw ac yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ymweliadau Rheoliad 73. Gall y bobl bersonoli eu hystafelloedd gwely a dewis eu prydau bwyd a gallant godi a mynd i'w hystafelloedd pan fydd yn gyfleus iddyn nhw. Mae'r amgylchedd yn cynnig amrywiaeth o ardaloedd cymunedol cartrefol a chyfforddus i'r unigolion gyfarfod â'i gilydd ac â'u hymwelwyr.

## Gofal a Chymorth

Caiff y bobl y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt; dywedwyd wrthym; *"I am very happy living here", "it's a nice place to live"* ac *"I am very happy here, I have everything I need, it's a lovely home".* Mae'r perthnasau yn canmol y gwasanaeth ac mae eu sylwadau yn cynnwys, "*I am very happy with the care of [wife], they are all very kind to her*" a "*we had looked at other homes but Gwernllwyn had something about it, it's special*".

Mae'r staff gofal yn meddu ar ddealltwriaeth dda o anghenion y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Maent yn gwybod am hanes yr unigolion a'u hanghenion gofal penodol yn unol â'u dewisiadau dyddiol. Mae'r rhyngweithio rhwng y staff a'r bobl yn garedig ac yn ofalgar. Mae'r gweithwyr gofal yn mwynhau rhoi cymorth i'r unigolion a gweithio yn y gwasanaeth. Dywedodd gweithiwr gofal wrthym; *"I enjoy the job and find it very rewarding"* ac "*I love my job; it is so satisfying supporting the residents".* Mae'r staff yn rhyngweithio ac yn cefnogi'r bobl mewn modd gofalgar a pharchus, sy'n ychwanegu at yr awyrgylch croesawgar a hapus yn y gwasanaeth.

Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo'n ddiogel yn byw yng nghartref Gwernllwyn ac yn teimlo y gallant godi pryder os byddai angen. Dywedodd un person wrthym; *"I know if I had a complaint I can speak to a member of staff or the manager".* Dywedodd perthnasau wrthym hefyd eu bod yn teimlo bod eu hanwyliaid yn ddiogel yn byw yn y gwasanaeth; *"I know [wife] is definitely safe here*" ac "*I know my mother is safe here".* Mae gweithdrefn gwyno glir wedi'i chynnwys yn y wybodaeth a roddir i'r bobl a / neu eu perthnasau wrth iddynt symud i mewn i'r gwasanaeth. Mae larymau brys yn hongian yn rhydd fel bod pobl yn gallu galw am help mewn argyfwng. Caiff clychau galw eu hateb yn amserol pan gânt eu canu.

Mae cofnodion gofal electronig yn cael eu defnyddio yn y gwasanaeth. Gwelsom fod y wybodaeth yn rhoi darlun da o'r person. Caiff cynlluniau eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd. Fodd bynnag, mae angen gwell tystiolaeth fod y bobl a/neu eu cynrychiolwyr yn cael eu cynnwys yn y gwaith o gynllunio ac adolygu eu gofal. Trafodwyd hyn â'r rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol. Mae gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn ymwneud ag anghenion gofal y bobl.

Mae nifer o'r staff yn gallu cyfathrebu yn Gymraeg, a gwelsom enghreifftiau o hyn yn ystod yr arolygiad. Mae'r cartref yn darparu 'cynnig rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae hyn yn golygu darparu gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn rhagweithiol i bobl, heb fod angen iddynt ofyn am hynny. Ceir arwyddion dwyieithog ym mhob rhan o'r cartref. Gwelsom aelodau o'r staff gofal yn siarad Cymraeg â'r bobl yn ystod ein harolygiad.

Mae'r gegin wedi cael sgôr hylendid bwyd o bum seren, gydag amrywiaeth o ddewisiadau dyddiol wedi'u cynnwys ar fwydlenni amrywiol. Dywedodd y bobl wrthym "*The food is excellent*" a "*the choices of meals is great, lots of home cooked food*". Caiff bwydlenni eu diweddaru'n unol â'r tymor a thrwy ymgynghori â'r bobl. Roedd amseroedd bwyd, yn ôl pob golwg, yn ddigwyddiadau cymdeithasol cadarnhaol a oedd yn cael eu mwynhau.

## Yr Amgylchedd

Mae’r amgylchedd yn cefnogi llesiant y bobl ac yn cynnig amrywiaeth o ddewisiadau ar gyfer achlysuron a digwyddiadau cymdeithasol. Mae'r cyfleusterau cymunedol yn cynnwys salon gwallt, ystafell / siop grefftau, ali fowlio â chaffi ac ystafell ddigwyddiadau â bar. Cadarnhaodd yr Unigolyn Cyfrifol a'r perchennog mai dim ond y bobl sy'n byw yng nghartref Gwernllwyn a'u teulu a'u ffrindiau all ddefnyddio'r cyfleusterau. Dywedodd un perthynas wrthym “*I visited with the grandchildren recently, we went to the café and bowling alley, the children played bowling while mum and I chatted, it was really enjoyable for all*”. Mae'r holl gyfleusterau o safon uchel iawn. Roedd adain ychwanegol yn cael ei gorffen ar adeg yr arolygiad ac roedd disgwyl iddi gael ei hagor yn fuan. Defnyddir arwyddion dwyieithog er mwyn helpu i gyfeirio'r bobl o amgylch y gwasanaeth.

People’s bedrooms are individually decorated and furnished to a high specification. Bedrooms are personalised with items of furniture, pictures, photographs and items important to the individual. Consideration should be given to making communal bathrooms less clinical in their design and décor. This could help improve a person’s bathing experience. The gardens and grounds are well maintained and offer people pleasant surroundings to sit and enjoy.

Caiff y risgiau i iechyd a diogelwch y bobl eu lleihau gan fod amrywiaeth o wiriadau ac archwiliadau cynnal a chadw yn cael eu cynnal. Caiff y cyfarpar diffodd tân a'r cyfarpar symud a chodi a chario eu profi a'u cynnal a'u cadw o fewn yr amserlenni gofynnol. Mae Cynlluniau Personol ar gyfer Gwagio'r Adeilad mewn Argyfwng (PEEP) wedi'u teilwra ar gyfer pob unigolyn ac ar gael yn hawdd. Mae systemau bysellbad a chyfyngwyr ffenestri ar waith lle bo angen er mwyn helpu i sicrhau bod y bobl yn ddiogel. Gofynnir i bob ymwelydd lofnodi'r llyfr ymwelwyr wrth gyrraedd a gadael.

Mae mesurau atal a rheoli heintiau ar waith. Mae mesurau diogel a phriodol ar waith er mwyn i berthnasau a ffrindiau ymweld â'r gwasanaeth. Caiff y mesurau hyn eu hadolygu'n rheolaidd. Caiff sylweddau sy'n beryglus i iechyd eu storio'n ddiogel ac mae ardaloedd cymunedol yn daclus heb unrhyw beryglon. Mae gan y staff domestig y cyfarpar priodol i gwblhau eu tasgau'n ddiogel. Mae'r amgylchedd yn lân heb unrhyw arogleuon gwael.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae trefniadau llywodraethu da ar waith. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn gweithio'n rheolaidd yn y gwasanaeth ac mae wedi cynnal ymweliadau Rheoliad 73. Mae AGC wedi cael copïau o'i adroddiadau, sy'n dangos ei fod yn siarad â'r bobl a'r staff fel rhan o'r ymweliadau â'r gwasanaeth. Gwnaeth y staff a'r bobl gadarnhau hyn gyda ni. Mae amrywiaeth o adnoddau monitro ac archwiliadau ar waith. Caiff y camau sy'n deillio o'r archwiliadau eu rhoi ar waith a'u hadolygu'n rheolaidd.

Mae’r rheolwr yn teimlo ei fod yn cael ei gefnogi’n dda gan yr Unigolyn Cyfrifol a’r perchennog, “*I have a really good relationship with the RI and owner, they have been very supportive”.*

Mae'r bobl yn cael gofal gan staff sydd wedi'u hyfforddi ac yn cael eu cefnogi'n dda. Mae'r gweithwyr gofal yn mynychu amrywiaeth o hyfforddiant gorfodol a hyfforddiant penodol i'r gwasanaeth, ac mae'r cofnodion staff yn cadarnhau hyn. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym am yr hyfforddiant roeddent wedi ei gwblhau, a gallent ddangos dealltwriaeth dda o'u rôl o ran diogelu unigolion ac arferion symud a chodi a chario diogel. Mae cofnodion y staff yn dangos eu bod yn cael sesiynau sefydlu, sesiynau goruchwylio ac arfarniad blynyddol. Mae'r cofnodion recriwtio'r staff yr edrychwyd arnynt yn ystod yr arolygiad yn cynnwys y dogfennau a'r gwiriadau gofynnol.

Mae'r gweithwyr gofal yn gadarnhaol iawn wrth sôn am weithio yn y gwasanaeth a'r cymorth a gânt gan y rheolwr a'r unigolyn cyfrifol. Dywedwyd wrthym *“I love it here, the managers are so supportive and really care”, “this is the best place I’ve worked, everyone is so friendly and supportive”* a *“this is a lovely place to work, [manager] is great, you can always speak to her”.*

Mae'r bobl a'u perthnasau yn canmol y staff a'r rheolwr, ac mae'r sylwadau yn cynnwys, “*the staff are great, very friendly, so are the managers, it’s a very clean home”, it’s a lovely home, all the staff are kind and considerate”* a *“nothing is too much trouble here for the staff and managers”*

Mae'r staff yn dilyn mesurau atal a rheoli heintiau priodol sy'n dilyn canllawiau diweddaraf Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae polisïau a gweithdrefnau sy'n gyfredol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ar waith i gefnogi'r staff. Mae AGC yn cael hysbysiadau ar-lein priodol o ddigwyddiadau ac mae’r gwasanaeth yn gweithredu'n unol â’i Ddatganiad o Ddiben.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 21 | Nid yw'r ffeiliau gofal unigol yn cael eu cwblhau'n gyson nac yn gywir ac nid ydynt yn cynnwys y wybodaeth gyfredol sydd ei hangen i ddiwallu anghenion gofal unigol. | Cyflawnwyd |
| 15 | Nid oedd y cynlluniau personol a'r cofnodion maeth bob amser yn cael eu cwblhau'n llawn, yn gywir ac yn gyfredol. | Cyflawnwyd |

**Dyddiad Cyhoeddi** 16/05/2023